

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – 3^{ydd}
- Cynhelir Dydd Gweddi'r Byd yn Groes am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
 - Cynhelir Dydd Gweddi'r Byd yn Llanefydd a Cefn Berain am 10.00, a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r gwasanaeth yn Llanefydd.
 - Cynhelir Gwasanaeth Gŵyl Ddewi Undebol yng Nghapel Henllan am 2.00 gyda Mrs Enid Davies yn pregethu.
- Sul nesaf – 10^{fed}
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu yn Llanefydd am 9.30.
 - Cynhelir Ysgol Sul yn Groes ac yn Henllan am 10.00. Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Henllan am 11.00.
- Gwener – 15^{fed}
- Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul (10^{fed})**, os gwelwch yn dda. Croeso i bawb.
- Sul canlynol – 17^{eg}
- Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 9.30 a bydd Mr Gwydion Lewis yn arwain oedfa i'r daith (Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes) **yn Groes** am 10.30.

I ddod

- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** – nos Fawrth, Mawrth 19eg am 7.00 yng Nghefn Berain. Siaradwr gwadd: Mr Aled Lewis Evans, Wrecsam. Gwneir casgliad yn ystod y noson.
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Hyfrydle, Betws yn Rhos nos Iau, Mawrth 21ain.
- **SWPER GŴYL DDEWI CYMDEITHAS CEFN BERAIN** yn cael ei gynnal yn Neuadd Llanefydd nos Wener, Mawrth 22ain am 7.30 a bydd adloniant gan Gôr y Porthmyn. Yr elw tuag at Gapel Cefn Berain ac Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst 2019. Croeso cynnes i bawb. Tocynnau ar gael gan Falmai Roberts.
- **LLANW** – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yn Ninbych y Pysgod yn 2019 a hynny rhwng Ebrill 22ain – 25ain. Ewch i'r wefan www.llanw.org i archebu ac/neu am fwy o fanylion.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.



Llais Bro Aled

Mawrth 3^{ydd} a'r 10^{fed}, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso mawr i bawb ohonoch i'n hoedfaon heddiw. Mae'n ddechrau mis Mawrth a nifer o ddigwyddiadau Gŵyl Ddewi yn cael eu cynnal lle byddwn yn dathlu ein Cymreictod gyda'n gilydd. Ac wrth i ni gofio cyfraniad neilltuol Dewi, mae'n naturiol bod nifer o Gymryr hefyd yn tueddu i ddefnyddio'r amser hwn o'r flwyddyn i gofio a diolch am waith rhyfeddol Duw yn ein gwlad dros y canrifoedd. Ond wrth gwrs, nid ffydd y gorffennol yw Cristnogaeth yng Nghymru a dyna pam y byddai'n syniad gwych i ni ddefnyddio'r amser hwn o'r flwyddyn i ymroi i weddio'n daer dros gyflwr ein gwlad. Gofynnwn i Dduw adnewyddu ei bobl trwy Ei Ysbryd ac ar i Arglwydd y cynhaeaf anfon mwy o weithwyr i'w feysydd.

Wrth feddwl am Gymreictod a'r fagwraeth arbennig mae cymaint ohonom wedi ei derbyn, yn naturiol mae rhywun yn cael ei atgoffa am y ffordd yr oedd Paul yn edrych yn ôl ar ei fagwraeth a'i gefndir wedi iddo ddod yn was i Grist. Fel y byddwn ni'n cyfeirio at rywun fel Cymro neu Gymraes i'r carn, yn Philipiaid 3 mae Paul yn dweud yn blaen na fyddai fawr o neb yn gallu ei guro mewn cystadleuaeth pwy sydd fwyaf Iddewig! Roedd Paul o dras Iddewig pur, yn siarad Hebraeg fel ei rieni ac yn Pharisead oedd yn cadw'r gyfraith Iddewig yn fanwl, fanwl. (Philipiaid 3:5 Beibl.net) Ond er mwyn dweud mai dyna oedd yn bwysig iddo y mae Paul y Cristion yn rhestru hyn – mae'r cyfan yn newid wedi iddo ddod i adnabod Iesu Grist: 'Rôn i'n cyfri'r pethau yna i gyd mor bwysig ar un adeg, ond o achos beth wnaeth y Meseia, dŷn nhw'n dda i ddim bellach. Does dim byd mwy gwerthfawr bellach na'r fraint aruthrol o gael nabod fy Arglwydd, y Meseia Iesu!' (Philipiaid 3:7-8)

Trwy ei brofiad personol o ddod i adnabod Iesu fel Arglwydd sylweddolodd Paul iddo fod yn ymhyfrydu yn y pethau anghywir. Er ei lwyddiant cymharol yn cadw'r Gyfraith Iddewig, wnaeth hynny ddim sicrhau perthynas iawn rhyngddo â Duw. Trwy ymddiried yn Iesu Grist yn unig y daeth hynny, a dyna sy'n wir i ninnau heddiw hefyd.

Does dim o'i le mewn gwerthfawrogi a diolch am ein hetifeddiaeth a'n magwraeth, ond nid oes neb ohonom yn dod i berthynas iawn â Duw ar sail ein cefndir yn unig. Dyna pam fod galwad Iesu i bobl o bob lliw a llun ddod ato yr un mor allweddol heddiw ac y bu erioed. 'Pwy bynnag sy'n credu yn y Mab, y mae bywyd tragwyddol ganddo; pwy bynnag sy'n anuffudd i'r Mab, ni wêl fywyd, ond y mae digofaint Duw yn aros arno.' (Ioan 3:36)

Rhodri

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 3^{ydd} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 6^{ed}
Iau – 7^{fed}
Gwener – 8^{fed} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- **Noson o Addoliad** – cyfle i ymlacio a mwynhau presenoldeb yr Arglwydd yng Ngholeg y Bala am 7.30. Croeso cynnes i bawb.
- Sadwrn – 9^{fed} ➤ **Ysgol Sadwrn DAWN Cymru** o 10.00 – 3.30 yng Nghapel y Bedyddwyr, Alfred Place, Aberystwyth, SY23 2BS. Steffan Jones, Alun Thomas a Rhodri Glyn fydd yn arwain, ac fe fydd amser i addoli, gweddi'o a chael cymdeithas gyda'n gilydd.
- **Diwrnod Cyfansoddi Caneuon Cymraeg ar Gyfer Addoliad Cyfoes** yng Ngholeg y Bala o 10.00 – 4.00. Os ydych chi'n chwarae offeryn, dewch â fo hefo chi. Dewch â chinio – bydd paned ar gael. Cysylltwch ag Andy Hughes (07968 826401/ ahughes@saintygymuned.org) i gofrestru.
- Sul nesaf – 10^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 12^{fed} ➤ **Cwrs Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Bregus** yng Ngholeg y Bala o 10.00 – 4.00 ar gyfer pob gweithiwr cyflogedig o fewn yr enwad a hefyd unrhyw un sydd â chyfrifoldeb dros weithgareddau'r eglwys. Os nad ydych wedi mynychu cwrs yn y gorffennol, gofynnir i chi fynychu'r cwrs hwn os yn bosibl, os gwelwch yn dda. Yn ychwanegol eleni, bydd y cwrs yn cynnwys gwybodaeth am y gofynion cyfreithiol i sicrhau diogelwch drwy asesu risg, ac i ddarparu asesiad ysgrifenedig cyn bob gweithgaredd. Bydd cyngor ar sut i fynd o gwmpas y dasg yma. Darperir cinio, ond rhaid archebu lle ymlaen llaw trwy gysylltu â Chydlynedd Hyfforddiant EBC: delyth@ebcpcw.org.uk / 07986 932261.
- Mercher – 13^{eg}
Iau – 14^{eg} ➤ **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
- Sul canlynol – 17^{eg} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu.

Cyhoeddiadau

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – 3^{ydd} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 gydag Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa.
- Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yno am 11.00.
- Mercher – 6^{ed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (3^{ydd})**, os gwelwch yn dda.
- Iau – 7^{fed} ➤ Cynhelir Dydd Gweddi'r Byd yn Festri Llansannan am 7.30.
- Sul nesaf – 10^{fed} ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa i'r daith (Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair) **yn Llanfair** am 10.30.
- Cynhelir cyfarfod byr i aelodau Capel Hiraethog yn Ystafell y Blaenoriaid, Capel Coffa Henry Rees am 7.30.
- Mercher – 13^{eg} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (10^{fed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 17^{eg} ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
- Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00 a bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa am 11.00 gydag Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.

Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – 3^{ydd} ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn yr oedfa.
- Sul nesaf – 10^{fed} ➤ Bydd Mr Gwion Dafydd yn arwain oedfa i'r daith (Peniel, Saron a Nantglyn) **ym Mheniel** am 10.00 a bydd Ysgol Sul yn dilyn yr oedfa.
- Sul canlynol – 17^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Saron am 10.00, ac ar ddechrau'r oedfa, bydd aelodau Capel Saron yn cael cyfle, trwy bleidlais gudd, i fynegi eu barn ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.